

Fel y nodwyd yn y rhifyn a rannwyd am ddim, nid papur ar gyfer gweiniogion neu flaenoriaid yn unig yw hwn ond holl aelodau'r eglwys.

Cardiau Nadolig

Roedd cardiau Nadolig Cyngor Ysgolion Sul i'w cael yn y cyfarfod yn Salem Caernarfon nos Fercher. Maent ar werth am £2 y pecyn gan Valerie Jones, Bryn Gelli gyda'r elw at Ysgol Sul, Capel Coch. Byddant ar werth yn Oedfa Ddiolchgarwch y plant y Sul nesaf, ac yn y Bore Coffi a'r Gymdeithas a'r Ffair Nadolig. Neu ffoniwch 871150 i archeb pecynnau o gardiau.

Os oes rhywun yn fodlon gofalu am eu gwerthu yn Neiniolen hefyd, rhochwyd wybod i'r Gweinidog mor fuan â phosibl os gwelwch yn dda.

Cyhoeddiadau

CEFNYWAUN AC EBENESER

Dydd Sul, Hydref 12: Bydd yr Ysgol

Sul am 11.15 o'r gloch a gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Parchg Trefor Jones, Caernarfon.

CAPEL COCH A NANT PADARN
Nos Wener, Hydref 10: Cynhelir CIC am 7.00 o'r gloch.

Dydd Sul, Hydref 12: Cynhelir Oedfa Ddiolchgarwch y Plant am 10.30 o'r gloch ac oedfa MOLI am 5.00 o'r gloch.

REHOBOTH

Dydd Sul, Hydref 12: Gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

CYNLLUN EFE

Dydd Gwener, Hydref 10: Cyfarfod Gweddi yn 'Cartref', Caethro rhwng 10.30 a 11.15 o'r gloch.



Y mis nesaf - Deiniolen

Hydref 5

10.00 a.m. - Y Gweinidog
Oedfa Fedydd
5.00 p.m. - Y Gweinidog

Hydref 12

10.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Y Parchg Trefor Jones

Hydref 19

10.00 a.m. - Oedfa Ddiolchgarwch y Plant
5.00 p.m. - Oedfa Ddiolchgarwch

Hydref 26

5.00 p.m. - Y Parchg W R Williams

Y mis nesaf - Llanberis

Hydref 5

10.00 a.m. a 5.00 p.m. -
Y Parchg Huw Pritchard
11.15 a.m. - Ysgol Sul

Hydref 12

10.30 a.m. - Oedfa Ddiolchgarwch y Plant
5.00 p.m. - Oedfa MOLI

Hydref 19

10.00 a.m. - Mr John H Hughes
5.00 p.m. - Mr Glyn Owen

Hydref 26

10.00 a.m. - Y Gweinidog
5.00 p.m. - Y Gweinidog



Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Deiniolen, Llanberis a Nant Peris
Rhif 607 – Dydd Sul, 05 Hydref, 2014

Bod yn gywir

Glywsoch chi erioed y fath ddadlau am un llythyren fechan? Dydd Mawrth, fe benderfynodd Cyngor Sir Powys newid enw pentref Llansanffraid-ym-Mechain i Llansanffraid-ym-Mechain trwy roi'r llythyren 't' yng nghanol yr enw. (Wedi meddwl am y peth, bu mwy o ddadlau ynghylch yr enw Cricieth; ai un 'c' ynteu dwy sydd yng nghanol yr enw hwnnw?) Dadl y Cyngor oedd mai 'Sant Ffraid' sydd yng nghanol yr enw, ac felly bod angen y 't'. Roedd eraill yn dadlau nad oedd angen y 't' gan mai merch oedd Ffraid, ac felly mai santes, ac nid sant, oedd hi, a bod 'Sant Ffraid' yn anghywir. Yn ôl y farn hon, Llansanffraid sydd gywir, a dyna oedd yr enw am genedlaethau nes i'r 't' gael ei hychwanegu wrth i'r ardal gael ei Seisnigeiddio. Roedd y camgymeriad hwn wedi ei gywiro, meddir, yn 2008 pan benderfynwyd adfer yr hen enw a pheidio â chynnwys y 't'. Ond yr wythnos ddiwethaf fe benderfynwyd newid unwaith eto; ac o hyn allan bydd 't' yng nghanol yr enw. Rwy'n cydymdeimlo â'r bobl sy'n dadlau bod y penderfyniad anghywir wedi ei wneud.

Fe welwch y tu mewn i'r rhifyn hwn mai enw'r Ofalaeth hon o fis Ionawr fydd 'Gofalaeth Bro'r Llechen Las'. Ond beth sydd gywir? 'Bro'r Llechen' ynteu 'Bro'r Lechen'? Dyna ni eto! Un llythyren fechan yn codi cwestiwn mawr! Ydi'r gair llechen yn treiglo yma ai peidio? Byddai llawer yn dweud mai hollti blew ydi trafod peth mor fanwl â hynny, ond waeth i ni fod

yn gywir ddim! Felly, 'Bro'r Llechen Las' amdani – heb dreigladd!

Mae manylion o'r fath yn bwysig i mi. Ond i bobl eraill, maen nhw'n ddiffilas a ddim gwerth poeni amdany'n nhw. A dwi'n deall hynny'n iawn, oherwydd yn y pen draw dydi'r manylion hyn ddim o bwys tragwyddol. Ond yr hyn sy'n drist ydi bod llawer o bobl yn dweud yr un peth am rai o wirioneddau mawr y Ffydd Gristnogol. Yng ngolwg rhai pobl, manylion dibwys nad oes angen gwastraffu amser yn meddwl amdany'n nhw yw'r hyn a ddywed y Beibl am berson a gwaith yr Arglwydd Iesu Grist. I'r bobl hyn, mae trafod dwyfoldeb Iesu Grist, a'i fywyd perffaith, a'i farwolaeth ar Groes Calfaria, a'i atgyfodiad corfforol o'r bedd lawn cymaint o hollti blew â thrafod y manylion gramadegol uchod. Ac mae peth felly yn drist iawn, iawn. Oherwydd yn wahanol i'r 't' a'r 'c' a'r 'll', y mae'r gwirioneddau hyn am yr Arglwydd Iesu o dragwyddol bwys. Mae'n hollbwysig ein bod yn gwybod y gwirioneddau amdano, ac yn eu credu.

Peidiwch â chael eich camarwain yn y pethau hyn gan neb, hyd yn oed gan weiniogion neu bregethwyr. Mae credu'r pethau cywir am Iesu Grist – y pethau y mae'r Beibl yn ei ddweud amdano – o'r pwys mwyaf i bob un ohonom. Nid hollti blew, er enghraifft, yw mynnu bod Iesu, y dyn o Nasareth, yn wir Fab Duw hefyd. Yn yr hyn a gredwn amdano y mae ein gobaiht.

Gofalaeth Unedig
Deiniolen, Llanberis a Nant Peris

Cefnysaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Heddiw

Croeso cynnes i oedfaon Sul arall. Boed i Dduw fendithio ein haddoliad.

Gwasanaethir yn Capel Coch am 10.00 a 5.00 o'r gloch gan y Paerchg Huw Pritchard. Croeso cynnes iddo atom unwaith eto, a diolch yn fawr iawn am ei wasanaeth. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch.

Bydd fi'n arwain y ddwy oedfa yn Neiniolen, gydag oedfa fedydd am 10.00 o'r gloch a'r ail oedfa fel arfer am 5.00 o'r gloch.

Nid oes oedfa yn Rehoboth heddiw.

Cofion

Anfonwn ein cofion gorau at bawb sydd heb fod yn dda eu hiechyd ar hyn o bryd.

Rhowch wybod i ni os gwyddoch am aelodau o eglwysi'r Ofalaeth sydd yn yr ysbwyty os gwelwch yn dda.

Cyngor Ysgolion Sul a'r Panel Diogelwch

Roedd cyfle i weld yr adnoddau sydd ar gael ar gyfer yr Ysgolion Sul a phob math o lyfrau Cristnogol yn festri Salem Caernarfon nos Fercher yn y cyfarfod a drefnwyd gan Gyngor Ysgolion Sul Cymru. Mae'n syndod cymaint o lyfrau a gyhoeddwyd drps y blynyddoedd gan y Parchg Aled Aled a Chyhoeddiadau'r Gair, sef y wasg sy'n gysylltiedig â'r Cyngor Ysgolion Sul. Beiblau, llyfrau, poster, jig-sos, DVD's, CD's, cardiau Nadolig: mae cymaint o ddeunydd ar gael erbyn hyn.

Yn ail ran y cyfarfod roedd Mrs Julie Edwards, Y Bala, o'r Panel Diogelwch Cydenwadol, yn cyflwyno'r *Llawlyfr Diogelu Grwpiau Bregus* newydd sy'n rhoi arweiniad i'r eglwysi ynglŷn â'r hyn sydd angen ei wneud er mwyn gweithredu yn y ffordd ddoethach a mwyaf cywir o fewn yr eglwys gyda phlant ac oedolion bregus.

Mae'r Llawlyfr yn llawn a manwl, a chafwyd golwg fanwl ar y prif bethau sydd angen cymryd sylw ohonynt. Fel y pwysleisiai Julie, mae llawer o'r hyn sy'n cael ei argymhell ynddo yn fater o synnwyr cyffredin a gweithredu doeth.

Un o'r pethau fydd angen ei wneud yn fuan gan athrawon yr Ysgolion Sul yw llenwi'r ffurflenni cais DBS (Gwiriad Datgelu a Gwahardd / *Disclosure and Barring Service*) sy'n cymryd lle'r hen ffurflenni CRB. Bwriad y ffurflenni yw gwarchod plant a gweithwyr gwirfoddol o fewn eglwysi a phob sefydliad a mudiad arall.

Bydd angen meddwl hefyd pwy arall ddylai wneud cais am dystysgrif DBS yng ngwaith yr eglwysi er mwyn gofalu ein bod yn cydymffurfio â'r gofynion sydd arnom.

Diolchgarwch

Cynhelir Cyfarfod Diolchgarwch y Plant yn Capel Coch am 10.30 o'r gloch, ddydd Sul nesaf, Hydref 12.

Gobeithio gwelwn chi yn yr oedfa.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â Mrs Doris Roberts, Fron Oleu, Llanberis yn ei phroffedigaeth o gollu wŷr yn ifanc ym Manceinion.

Pwyllgor Gofalaeth

Cynhaliwyd Pwyllgor yr Ofalaeth yn Capel Coch nos Iau i drafod y newid a fydd i'r Ofalaeth o fis Ionawr 2015 ymlaen.

Bydd eglwysi Annibynnol Carmel, Llanllechid a Bethlehem, Talybont yn dod yn rhan o'r Ofalaeth ddechrau Ionawr. Bydd Cyfarfod Sefydlu'n cael ei gynnal, a gadawyd y gwaith o drefnu hwnnw yn naturiol i'r ddwy eglwys. Bydd yn cael ei gynnal yn nes ymlaen yn y flwyddyn newydd.

Penderfynwyd y byddai'n rhaid cael enw newydd i'r Ofalaeth gan y byddai 'Gofalaeth Unedig Deiniolen, Llanberis, Nant Peris, Llanllechid a Thalybont' yn ormod o lond ceg! Yr enw a ddewiswyd oedd 'Gofalaeth Bro'r Llechen Las', sy'n nodi'r cyswllt amlwg sydd rhwng yr ardal hon a'r ddau bentref yn Nyffryn Ogwen. (Roeddwn i wedi awgrymu 'Gofalaeth Double O Seven' - sef y ddwy ardal, Orwig ac Ogwen, a 7 eglwys yr Ofalaeth newydd. Ond yn ddoeth iawn, mi benderfynwyd nad oedd yn addas! Fyddai'r enw ddim yn cyfleu'r neges orau mae'n debyg. Ond mi fyddai wedi bod yn hwy!)

Cytunodd swyddogion presennol y Pwyllgor i barhau. Trysorydd Pwyllgor yr Ofalaeth yw Mrs Bet Williams, Capel Coch a'r Is-lywydd yw Miss Marian

Jones, Cefnysaun. Mr Thomas John Roberts, Capel Coch yw'r Llywydd, ac anfonwn ein cofion ato o'r Pwyllgor. Y Gweinidog sy'n gweithredu fel Ysgrifennydd y Pwyllgor.

CIC

Cynhelir cyfarfod nesaf CIC yn Capel Coch nos Wener, Hydref 10.

Cyfarfod Gweddi Efe

Cynhelir Cyfarfod Gweddi Efe yn nhy Andrew Settatee, Cartref, Caeathro rhwng 10.30 a 11.15 o'r gloch fore Gwener nesaf, Hydref 10.

Mae croeso i unrhyw un ddod atom, ac nid oes rhaid poeni am fedru dod bob wythnos.

Bu raid gohirio'r cyfarfod echdoe am nad oedd Andrew yn dda. Gobeithio ei fod yn well erbyn hyn ar ôl dal yr haint a drawodd gymaint o ddisgyblion Ysgol Brynrefail yr wythnos cynt. Y peryg yw mai un o beryglon swydd gweithiwr ieuencid yw'r perygl o ddal unrhyw haint sy'n taro'r plant a'r bobl ifanc!

Diolchgarwch

Cynhelir Cyfarfod Diolchgarwch y Plant yn Neiniolen am 10.00 o'r gloch, ddydd Sul, Hydref 19. Byddai'n braf iawn gweld aelodau'r ddwy eglwys yn ymuno yn yr oedfa hon.

Y Goleuad

Fe ddosbarthwyd copiau rhad ac am ddim o'r *Goleuad* yn ddiweddar er mwyn tynnu sylw at y papur. Gwnaed hyn gan y cyhoeddwr y llynedd hefyd. Gobeithio eich bod wedi mwynhau ei ddarllen os gwelsoch ef. A chofiwch mai bwriad cynnig copi am ddim oedd ennyn awydd mewn rhai i brynu copi bob wythnos. Os ydych eisiau rhagor o wybodaeth cysylltwch â'r Gweinidog.